Community update

January 2026

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Mining Remediation Authority

Yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio

# Nant y Mwyn Lead Mine

**Dear residents,**

Following our October 2025 update, we're sharing more details about our Nant y Mwyn mine project, particularly our upcoming works at the Nant y Bai watercourse. This year, with the cooperation of landowners, we plan to stabilise the eroding mine waste tips along a section of the Nant y Bai channel. This will reduce metal-rich sediment entering the stream, thereby improving water quality and safeguarding heritage features and nearby habitats.

## Details of planned works

**Proposed Works**: Installation of scour protection measures in eight separate locations along the Nant y Bai watercourse, which will include rock filled bags, geotextile matting, timber stakes and grassland translocation. Also, four brash sediment traps and a 28m pipe to carry a surface water discharge across legacy mining spoil, to reduce leaching of metals.

**Start**: We would like the works to commence in Spring 2026, however this timescale could easily be impacted, as we are working in complex environments with much sensitive flora and fauna and other constraints including working in a watercourse.

**Duration**: The works are scheduled to take approximately eight weeks. While you may occasionally see work vehicles in the area, we anticipate minimal disruption to local traffic.

**Protected Site Considerations**: Because our operations take place within a Site of Special Scientific Interest (SSSI), we are working with NRW protected sites team and taking precautions to protect the sensitive habitats during the works. This may include:

- **Delivery of materials** like rock filled bags by helicopter, as this method will greatly reduce disturbance of the ground-based habitats. We are conscious of potential noise impacts, so helicopter use will be restricted and carefully scheduled.
- **The use of heavy machinery** will be kept to a minimum. Most of the equipment deployed will be small and light, helping to limit disturbance to the area.

## Working together

We aim to keep the community informed and involved during the project and you can stay up to date with the latest developments, at our project hub: **bit.ly/NantyMwynMetalMine.**

If you wish to learn more, receive updates, or give your views, please contact us on the details below, as your feedback is welcomed. Thank you for your continued support as we work together to protect this important site and enhance the health of our rivers for generations to come.

## Contact us

**General Enquiries**: 0300 065 3000
**Engagement Manager**: Adam Bateman – 01623 637015
**Email**: nantymwyn@metalmineswales.co.uk



STAY MINE SAFE · CADWCH YN DDIOGEL

Old mines are dangerous places with many hidden hazards. Many of our projects are located on private land where public access is not permitted without landowner approval.

GDT1039-Nant y Mwyn A4 mailout.indd 1 14/01/2026 10:30:48

**Diweddariad Cymunedol**

Ionawr 2026

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Mining Remediation Authority

Yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio

# Gwaith Plwm Nant y Mwyn

**Annwyl Breswylwyr,**

Yn dilyn ein diweddariad yn ystod Hydref 2025, rydym yn rhannu mwy o fanylion am ein prosiect gwaith plwm Nant y Mwyn, yn arbennig ein gwaith a fydd yn dechrau'n fuan ar gwrs dŵr Nant y Bai. Eleni, gyda chydweithrediad tirfeddianwyr, rydym yn bwriadu sefydlogi'r tomenni gwastraff sy'n erydu ar hyd rhan o sianel Nant y Bai. Bydd hyn yn lleihau gwaddod llawn metelau sy'n mynd i mewn i'r nant, a thrwy hynny'n gwella ansawdd dŵr ac yn diogelu nodweddion treftadaeth a chynefinoedd cyfagos.

## Manylion y Gwaith Cynlluniedig

**Gwaith Arfaethedig**: Gosod mesurau amddiffyn rhag erydiad mewn wyth lleoliad gwahanol ar hyd cwrs dŵr Nant y Bai, a fydd yn cynnwys bagiau wedi'u llenwi â cherrig, matiau geotecstil, polion pren a thrawsleoliad glaswelltir. Hefyd, pedwar trap gwaddod wedi'u gwneud â malurion a phibell 28 m i gludo gollyngiad dŵr wyneb ar draws rwbel mwyngloddio hanesyddol, er mwyn lleihau trwytholchi metelau.

**Cychwyn**: Hoffem i'r gwaith ddechrau yng Ngwanwyn 2026, fodd bynnag, gallai'r amserlen hon newid yn hawdd, gan ein bod yn gweithio mewn amgylcheddau cymhleth lle ceir fflora a ffawna sensitif iawn a chyfyngiadau eraill gan gynnwys gweithio mewn cwrs dŵr.

**Hyd y gwaith**: Mae'r gwaith wedi'i drefnu i gymryd tua wyth wythnos. Er y gallech weld cerbydau gwaith yn yr ardal o bryd i'w gilydd, rydym yn rhagweld y bydd cyn lleied o aflonyddu ag sydd bosibl ar y traffig lleol.

**Ystyriaethau Safleoedd Gwarchodedig**: Gan fod ein gweithrediadau'n digwydd o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), rydym yn gweithio gyda thîm safleoedd gwarchodedig CNC ac yn cymryd rhagofalon i amddiffyn y cynefinoedd sensitif yn ystod y gwaith. Gallai hyn gynnwys:

- Dosbarthu deunyddiau fel bagiau wedi'u llenwi â cherrig mewn hofrennydd, gan y bydd y dull hwn yn lleihau aflonyddu ar gynefinoedd ar y ddaear yn fawr. Rydym yn ymwybodol o effeithiau sŵn posibl, felly bydd ein defnydd o hofrennydd yn cael ei gyfyngu ac yn cael ei drefnu'n ofalus.
- Byddwn yn defnyddio cyn lleied ag sydd bosibl o beiriannau trwm. Bydd y rhan fwyaf o'r offer a ddefnyddir yn fach ac yn ysgafn, gan helpu i gyfyngu ar aflonyddwch i'r ardal.

## Cydweithio

Ein nod yw sicrhau fod y gymuned yn cael ei diweddaru ynglŷn â'r prosiect yn gyson a'i bod yn rhan ohono a gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf yn ein hwb prosiect: **bit.ly/NantyMwynMetalMine**. Os hoffech ddysgu mwy, derbyn diweddariadau, neu fynegi eich barn, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod, gan ein bod yn croesawu eich adborth.

## Cysylltu â Ni


**Ymholiadau Cyffredinol**: 0300 065 3000

**Rheolwr Ymgysylltu**: Adam Bateman – 01623 637015

**ebost**: nantymwyn@metalmineswales.co.uk




STAY MINE SAFE / CADWCH YN DDIOGEL

Mae hen fwyngloddiau yn lefydd peryglus gyda llawer o beryglon cudd. Mae llawer o'n prosiectau wedi eu lleoli ar dir preifat lle nad oes mynediad cyhoeddus heb ganiatâd perchennog y tir.

GDT1039-Nant y Mwyn A4 mailout.indd 2 14/01/2026 10:30:51